YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LI. AWST, 1951 RHIF 8.

Nodiadau'r Golygydd.

COFIO'R DYN.

YMAE nifer o gyfeillion yn y gyfrol goffa hon yn sôn am nodweddion y diweddar E. O. Jenkins ond ni allwn beidio â chadw'r testun yma i mi fy hun. Dyma'r testun mwyaf peryglus efallai oblegid fe ellir tresmasu'n ddrwg wrth geisio disgrifio



person mor adnabyddus ac annwyl gan fy narllenwyr. Ond rywbryd fe fydd rhywrai yn troi'r tudalennau yma ac yn gofyn "pa fath ddyn oedd hwn", a'm hunig bwrpas mewn hyn o lith fydd ceisio cadw rhyw bethau bach a wnai Jenkins mor ddiddorol ar glawr.

Pan ddaeth awydd arnaf i fynd i'r weinidogaeth, nid oedd dim amdani ond mynd i weld Jenkins—ef oedd yn gwybod y ffordd o fynd ati. Synnwn i ddim, petawn i wedi penderfynu mynd yn fancer neu arwerthwr, nad at Jenkins yr awn hyd yn oed wedyn i ofyn am gyfarwyddyd. Yr oedd yn gwybod y pethau yma i gyd a'u gwybod yn fanwl ac yr oedd yn barod bob amser i gynorthwyo. Petai wedi cael ceiniog am bob ffurflen bensiwn a thaflen treth incwm a lanwodd erioed buasai'n marw'n ddyn cyfoethog. Beth bynnag, cyn i mi adael step drws Llwynmarles yr oedd y llythyrau wedi eu hysgrifennu a'r ffordd yn glir o'm blaen. Daeth i'm hebrwng i waelod y rhiw, ac wedi adrodd dwy neu dair o bregethau dyma ordor pendant imi alw'n amal a ffwrdd a mi gyda llyfr o hanesion "Lax of Poplar" dan fy ngesail.

Wrth edrych 'nôl gallaf ei weld o flaen fy llygaid yn union fel ei gwelais y diwrnod hwnnw. Y ci bach o dan ei gesail, yn ddyn tal tenau a'r coler gwyn mawr am ei wddf. Yr oedd ganddo wyneb a chroen glân i'w ryfeddu, a phan deimlai dros rywbeth yr oedd gwrîd yn codi'n rhwydd ar ei ruddiau. Yr oedd wedi smocio pump neu chwech o bibelleidiau o *shag* a minnau'n sylwi arno'n lodo gyda rhyw ddwylo llipa, meddal ac ansicr ei symudiad. Ni chydiodd yn dynn wrth ysgwyd llaw erioed ac wrth basio yn ei gár byddai yn ei chodi'n hollol amhendant a heb egni. Wn i ddim a oedd y llesgedd wedi cydio'n barod, neu ai felly y bu erioed. Gwn y byddai'n cwyno na fedrai ysgrifennu llawer ac y byddai eistedd i ysgrifennu pregeth gyfan yn ddigon i'w ladd.

Y tro nesaf, a hynny mewn byr amser, yr oedd wedi trefnu mynd â mi yn ei gár i Abertawe i gwrdd â'r pwyllgor dychrynllyd a oedd i drin fy nghymwyster i fod yn fyfyriwr. Pan gyrhaeddais sgwâr Pontshaen yr oedd y cár wedi dod allan o'i stabl a Jenkins yn cael golwg ar y *Western Mail*—"Da iawn wir-w," meddai, ac wedi egluro nad oedd ganddo ddim golwg ar y *Western Mail* na'i syniadau, ac er ei fod wedi ei ddarllen ers blynyddoedd, nid oedd, meddai, wedi cael dim dylanwad arno. I ffwrdd a ni ar ôl lodo'r bib unwaith eto a dyna ddechrau un o'r degau o deithiau a gefais yn yr EJ 4818. Yr oedd cymeriad hyd yn oed i gàr Jenkins, a chyn hir yr oedd wedi dweud wrthyf nad oedd yn deall dim ar y peiriant, a phan glywais ef yn ' newid lawr ' am y tro cyntaf, gwyddwn ei fod yn dweud y gwir. Yr oedd ganddo lawer gormod o ddiddordeb mewn tai a phethau diddorol ar fin y ffordd i fod yn ddreifwr da, a theimlwn yn bur anesmwyth wrth fynd rownd i'r troeon ymhell o fod ar yr ochr iawn. Wrth ymadael ag un o'r lleoedd diddorol yma, a chael ei stori, fe fuom bron â mynd i ddinistr drwy daro yn erbyn cár rhyw borthman, ond diolch i fedr a gofal ' Davy Tom ' fe ddaliodd y brakes mewn pryd. Fe fu'r porthman yn siarad fel porthman am dro ond caeodd Jenkins y ffenestr, pwff neu ddau i'r

catâr, a dechrau mwmian "Mae popeth yn dda" a ffwrdd â ni yn yr un dull eto.

Daeth stori neu ddwy yn y fan, ac yna'n sydyn reit gofyn a oeddwn yn hoffi cynllun pregeth a oedd ganddo yn ei feddwl ar gyfer y Sul. "Da was, da a ffyddlawn" oedd y testun. "I ddechre, mae'n werth sylwi fod yr Iesu yn canmol, a mae eisiau fwy o ganmol yn y byd 'ma. 'Does dim byd fel ' diolch yn fawr ' i godi calon dyn a rhoi ysbryd newydd iddo fynd at i waith. Yr Iesu'n deall gwerth canmoliaeth. Ond mae'n bwysig hefyd i sylwi pwy mae'r Iesu yn i ganmol. Ma' 'na lawer o ganmol yn y byd heddiw, ond nid oes canmol ar y dynion iawn. Ma nhw'n canmol y *boxers* 'ma, a'r actorion a phobol sy'n gweud lot o ddwli, ond sylwch pwy odd yr Iesu yn i ganmol. Canmol gwas. Ma digon o ganmol ar y dynion mawr a'r arweinwyr a'r gwŷr enwog, ond 'rym ni'n barod i anghofio canmol dyn sy'n was, y dyn sy'n rhoi i wasanaeth yn ddinod i eraill. Ac ymhellach sylwch pam y mae e'n canmol y gwas, am i fod e'n *dda* yn gynta, ac am i fod e'n *ffyddlon* yn ail." Yna troi ataf i a dweud, "Mi ddaw ond daw hi" ? a minnau'n cytuno gan ryfeddu mor rhwydd yr oedd hi'n dod. Yn chwys i gyd ar lawer nos Sadwrn, yr wyf wedi cofio sut oedd pethau'n *dod* i Jenkins. Mae'r Beibl yn dweud fod y Creawdwr wedi gwneud y byd mewn chwe niwrnod, trueni na fuasai wedi cymryd mwy o amser oherwydd go brin y mae chwe niwrnod yn ddigon hir i wneud dwy bregeth. Ond arnom ni mae'r bai, yr oedd gan Jenkins drefn ac fe dyfai ei bregethau fel lili'r maes. Wrth ei weld yn ei bulpud ac ar ei ymweliadau yr oedd gweinidogaethu yn mynd i edrych yn waith dymunol a phleserus. " 'Does dim eisiau chwysu wrth ddweud y gwir" oedd cyngor cyson Mr. Jenkins.

Yr oedd ganddo syniadau pendant iawn am ei swydd ac nid oedd heb wasgu'r rheiny'n ddyfal a chyson ar ei gyfaill newydd, ifanc. "Da chi," meddai, "peidiwch byth a gwisgo coler rownd. Tri pheth sy'n gas gen i, *Coler rownd,* y gair *Mansé* a'r teitl *Parch.*" Yr oedd y gweinidog i fod yn un o'r bobl, yn byw gyda nhw a heb unrhyw *drimmings* i'w ddieithro oddi wrthynt. Danfonodd ei farwogofion yn gyson i'r Ymofynnydd ; yn wir yr oedd amlen a chyfeiriad y Golygydd yn barod ar ei ddesg ar ddechrau'r mis ac yn cael ei phostio iddo yn gywir i'r diwrnod bob tro—ond ni welais y gair *Parch.* ar gyfer enw neb erioed yn un ohonynt. Ac onid ef oedd yn iawn, onid gweinidogaeth leyg yw ein gweinidogaeth ni, a pha raid i ni lynu wrth ryw hen arferion eglwysig a dynwared offeiriadaeth pan ym wedi llwyr ymwrthod â'r syniadau ynglŷn â hi ? Yr oedd Jenkins yn gwisgo trowser flannel (un go dynn mae'n wir), ond yr oedd yn ei wisgo o argyhoeddiad gŵr na fynnai fod yn wahanol i'r rhelyw o'i gyd-ddynion. Nid oes angen i ddyn wisgo fel ' blac-pat ' i ddangos ei fod yn cymryd ei swydd o ddifri.

Cymwynasai Jenkins oedd ei wisg bregethwrol, ac yr oedd caredigrwydd ei fywyd yn ddigon fel nad oedd angen coler gron i ddweud mai gŵr Iesu oedd hwn, ac nid oedd angen Parch. o flaen ei enw, ohrwydd yr oedd parch yn ei ganlyn ba le bynnag yr âi. Ei eiriau olaf wrthyf ym Mhwyllgor y mŷfyrwyr pan gymerwyd ef yn sâl oedd, "Gofalwch am Watkin". Fel finnau gynt daeth a Watkin yn ei gâr i wynebu'r pwyllgor ac i dalu'r pwyth yn ôl, 'rwy'n addo gofalu am Watkin—os ef a'i myn.

Daliodd syniadau cwbl amhoblogaidd yn ystod y rhyfel byd diwethaf, a mynnodd rhai ddweud pethau cas amdano. Ni faliai fotwm, ac fe'i clywais yn dweud am tua chwarter i saith mewn cwmni un noson—"Rhaid i fi fynd 'nawr i ddala'r *news*." "Pwy *news* sy 'nawr ?" meddai rhywun. "Lord Ho Ho," oedd yr ateb, " 'rwy'n leico cael clywed y ddwy ochor !" Yr amser yma y cefais gyfle i gyflwyno'r *Faner* iddo a byth er hynny yr oedd yn ddarllenwr cyson o "Gwrs y Byd," a gellid olrhain taith ei ymweliadau wrth glywed barn oleuedig ar bynciau'r dydd gan rai o'i blwyfolion. "Os oedd Mr. Jenkins wedi dweud hynny—odd bownd o fod rhywbeth yndo fe !" Gwireddwyd y geiriau, ac yn wyneb y sefyllfa heddiw y mae llawer o'i feirniaid yn sobrach gŵŷr.

Fe welir ei eisiau yn yr ardal, ac nid yn y Llwyn a'r Bwlch yn unig. Ni welir mohono mwy yn sêt fawr Carmel a Phisgah ; ni bydd raid cwyno mwyach fod cyngerdd Nos Nadolig yn cwpla'n rhy gynnar ; ni cheir stori'r gath yn dod lawr i'r grisiau yn iaith y Gogledd. Y dydd o'r blaen daeth i'm hebrwng o Lwynmarles lawr hyd waelod y rhiw am y tro olaf, ond wrth ymadael, edrychais yn ôl yn hiraethus ac fe'i gwelais yn sefyll yn dal denau, yr ast fach dan ei gesail ac yr oedd yn mwmian canu "Mae popeth yn dda".

E. O. Jenkins fel Cyfaill.

Gan y Parch. Lewis Williams.

Y mae ymadawiad y Parch. E. O. Jenkins â'r fuchedd hon wedi bod yn achos i mi ac i lawer eraill i golli cyfaill. Mae yna ddywediad Saesneg, "A friend in need is a friend indeed". Fe brofais i Mr. Jenkins yn gyfaill pan oeddwn mewn amgylchiadau isel oherwydd afiechyd. Y mae bod yn gyfaill i arall mewn caledi yn un o'r pethau mwyaf y gall dyn fod. Gall dyn wneud daioni i arall am dro heb fod yn gyfaill iddo. Mae llawer o bethau yn annog rhai pobl i wneud daioni am dro heblaw cyfeillgarwch. Amcanion hunanol sydd mewn golwg gan rai wrth wneud daioni. Ond nid hynny sydd yn annog cyfaill i wneud daioni i arall. I

fod yn gyfaill rhaid bod elfennau godidog mewn dyn ; rhaid bod ynddo gariad at ei gyd-ddyn ; cydymdeimlad â'r hwn fyddo mewn angen, a pharodrwydd i aberthu er ei fwyn. Yr oedd y rheina yn amlwg iawn yn Mr. Jenkins. Meddai ar ddynoliaeth oedd yn gyfoethog mewn elfennau da. Pan soniodd rhywun am arall fel dyn gwag dywedwyd wrtho ei fod yn gwneud camsyniad, ac nad oedd y dyn yn wag, ei fod yn gyfoethog iawn, yn byw mewn fferm fawr, ac yn meddu ar lawer o anifeiliaid. Atebwyd drwy ddweud nad oedd y pethau hynny yn ran o'r dyn, mai pethau o'r tuallan iddo oeddynt, ac mai dyn gwag ydoedd—gwag yn yr ystyr nad oedd ynddo gariad brawdol, na chydymdeimlai a neb fyddai mewn angen, nac egwyddor uniawn i weithredu yn onest yn ei ymdrafodaeth ag eraill. Faint bynnag o ddaioni wnai hwnnw am unwaith, un o ddynoliaeth wag ydoedd. Nid un felly oedd Mr. Jenkins, ond gŵr o ddynoliaeth a oedd yn llawn o elfennau da.

Hwnnw ydyw'r dyn ydym ni yn hoffi, ac yr oedd Mr. Jenkins yn un oedd yn cael ei hoffi. Hynny yn bennaf a gyfrifai am ei boblogrwydd, ac am ei lwyddiant fel gweinidog yr efengyl. Yr oedd yn bregethwr da, yn bregethwr ar ei ben ei hun, a chanddo ei ffordd ei hun o bregethu, a honno yn ffordd effeithiol iawn. Dywedai bethau agos, ond oedd yn perthyn i fywyd beunyddiol pawb. Pethau felly sydd ag eisiau eu dweud, ac nid pethau pell ac amherthynasol i fywyd dyn. Ond nid y ddawn hon o'i wneud ei hun yn eglur a dealladwy oedd yn cyfrif fwyaf am ei boblogrwydd, eithr ei ddynoliaeth ragorol. Cefais ef yn gyfaill ffyddlon hyd y diwedd.

> "If thou hast friends
> And their adoption tried,
> Grapple them to your soul
> With hooks of steel." *Shakespeare.*

Nid iawn fyddai peidio sôn am ei weithgarwch fel gweinidog eglwysi Llwynrhydowen a Chapelyfadfa. Syr Christopher Wren oedd adeiladydd eglwys Gadeiriol St. Paul, Llundain, ac amryw o adeiladau mawrion eraill yn y brifddinas. Ar fur yr eglwys honno gosodwyd y geiriau—"If you want to see a memorial to Sir Christopher Wren look around". Gellir dweud yr un peth am Mr. Jenkins. Os ydych yn holi beth a gyflawnodd, edrychwch oddi amgylch. Sylwch ar Llwynmarles. Dyna dŷ dymunol i weinidog i fyw ynddo. Mae y ddwy eglwys yn ffodus iawn fod hwn ganddynt mewn dyddiau pryd y mae tai mor brin. Sylwch ar Festri y Llwyn. Dyna le cyfleus ar achlysuron neilltuol. Sylwch ar Gapel-y-fadfa. Dyna gapel hardd i addoli ynddo. Sylwch ar y Festri eang sydd yno. Mae yn llawer mwy dymunol i gynnal Cyfarfodydd Chwarter yno yn awr nag ydoedd cyn bod y Festri hon yno. Drwy arweiniad a llafur diflino Mr. Jenkins yn bennaf

y caed yr adeiladau hyn. Erys rhain i dystiolaethu am ei weithgarwch.

Soniais am ddyn gwag. Mae ambell dŷ yn mynd yn dŷ gwag iawn. Dyna wag fydd Llwynmarles mwy. Yr oeddwn i yn mynd i ardal Pontshaen weithiau ar neges. Nid oeddwn byth yn troi yn ôl heb gael gweled fy nghyfaill yn Llwynmarles. Dyna groeso gawn i yno. Teimlwn fod ei gymdeithas yn adgyfnerthu fy meddwl a'm hysbryd. Dywedir am y diweddar Barch. D. S. Davies, gweinidog yr eglwys Annibynnol yn Union Street, Caerfyrddin, ei fod yn mynd yn isel ei ysbryd weithiau. Pan oedd un tro yn y cyflwr hwnnw digwyddai fod Cyfarfodydd Chwarterol yr enwad yn cael eu cynnal yn Aberaeron. Gwyddai Mr. Davies fod disgwyliad iddo fod yn y Cyrddau. Nid oedd awydd arno am fyned, ond mynd wnaeth. Ar ôl iddo ddod yn ôl gofynodd rhywun iddo sut gyrddau oedd yn Aberaeron. "Ardderchog," meddai, "y cyrddau gorau y bûm ynddynt erioed, mae cymdeithas y brodyr yno wedi codi cymaint o'm calon fel y gallaf fyw yn hapus am fisoedd mwy." Teimlwn innau yn debyg 'rôl bod yn Llwynmarles. Ond tŷ gwag fydd Llwynmarles mwy i mi. Rhaid peidio digalonni er hynny—

"Henffych i'r dydd cawn eto gwrdd
Yn Salem fry oddeutu'r bwrdd".

"Jenkins Llwyn."

Y DYN CYHOEDDUS.

Safwn dridiau'n ôl ar lan bedd Jenkins Llwyn ym mynwent Llwynrhydowen i ffarwelio a'm hen ffrind a chymwynaswr parod pawb drwy'r ardal, gan weddïo Duw ar ran ei ddwy eglwys weddw a'i aelodau amddifad. Y mae bron hanner canrif oddi ar yr adeg ei gwelais y tro cyntaf erioed, a dyna sy'n rhyfedd—ar lan bedd ei gwelais y tro hwnnw hefyd—ar lan bedd fy mrawd hynaf ym mynwent Capel y Bryn ; a ' gweinidog ifanc y Llwyn ' fel ei gelwid yr adeg honno, yn ein cyflwyno i ofal y Tad Gorau. Weithian y mae Jenkins Llwyn mewn bedd, ac yn gwybod ' dirgelion tragwyddoldeb ' y soniai cyhyd wrthym amdanynt drwy ffydd. Y mae'i bulpudau'n wâg, ac aelodau'r Bwlch a'r Llwyn yn disgwyl yn ofer am eu gweinidog hoff. Nid wyf am glwyfo neb ond credaf bod yr ardalwyr wedi gofyn gormod o gwymynasau *bach* ar ei law, cymwynasau y gallai arall eu gwneud cystal onid gwell heb ei drwblu ef. Y mae perygl gwneud *gwas bach* o weinidog. Nid yw hynyna ond barn bersonol.

Ni cheisiwyd gennyf basio barn arno fel pregethwr a gweinidog. Ni allwn. Ni fynnwn. Ofnid fy safon hwyrach. Nid oedd raid iddynt. Ni chymerwn i mo'r byd am fesur a phwyso gweinidog. Gwn ormod am ei ffwdanau a'i anawsterau. Fe oddefir i mi serch hynny ddweud na chlywais neb yn siarad mor llithrig a didrafferth, mor ddiddorol a hawdd ei ddilyn a'i wrando ag ef, ond dyna grwydro oddi wrth y dyn cyhoeddus.

Y mae eisiau safonau cywir i bwyso Gweinidog Duw, ond fe ddengys pob gweinidog ei hun yn ei ddiddordebau. Y mae rhywbeth yn awel Dyffryn Cletwr i fagu gŵr rhydd. Dyma ardal Jenkin Jones a Jenkins Llwyn. Dyma fro'r ddadl fawr Arminaidd. Dyma Gad Gamlan Sgweier a Stiwart. Dyma ardal y troi allan, cau'r hen gapel ac etholiad '68. Dyma faes llafur Jenkin Jones, David Lloyd a Dafis Castellhywel. Yma y llafuriodd Gwilym Marles, William James a llu eraill. Yn yr un ardal y treuliodd Jenkins bron hanner canrif. Ni cheisiaf dynnu ond tri darlun ohono fel Rhyddfrydwr, fel Cynghorwr Sir ac fel Cymwynaswr ardal gyfan.

Ys dywed y Dr. R. T. Jenkins, "Bu'n dda i Gymru wrth ryddfrydiaeth wleidyddol ei Hundodiaid yn yr oes nesaf, ac yn dda i'w haddysg a'i llenyddiaeth wrth eu hysgolion rhagorol, a'u cariad at lên o ddyddiau Dafydd Dafis a Iolo Morganwg hyd ddyddiau Gwilym Marles ac ymhellach." Dyna farn bwyllog Dr. Jenkins ac ni chredaf y gallai gweinidog y Llwyn fod yn ddim ond Rhyddfrydwr, a dyna ydoedd Jenkins. Yr oedd yn geidwadol yn ei ryddfrydiaeth. Daliai'r faner i fyny dros Vaughan Davies, Hopkin Morris, D. O. Evans a Roderic Bowen, y naill fel y llall, ond yr oedd y mwyafrif mawr o wŷr blaenllaw'r Rhyddfrydwyr yn rhy brysur gyda Duges Caint ar ddydd ei arwyl, ac aeth i'w fedd heb ond ei ardalwyr i alaru o'i golli. Nid oedd neb yn fwy parod nag ef adeg etholiad i sefyll i fyny o blaid egwyddor ; ac ef, ond odid, oedd yr olaf o'r gweinidogion Undodaidd Rhyddfrydol. Gynt gellid dibynnu ar weinidogion Undodaidd eu bod yn Rhyddfrydwyr. Nid wyf agos cyn sicred heddiw. Nid oedd Jenkins ddim ond rhyddfrydwr, heb weld dim mewn Sosialaeth. Ni bu'i ffyddlonach ar lwyfan adeg etholiad, a phwy bynnag a gloffai rhwng dau feddwl nid Jenkins mohono. Yn ddiweddar iawn y cafodd ei alw yn llywydd y Gymdeithas Ryddfrydol. Ni wn pam, ac yntau wedi gwneud mwy na neb drosti am hanner canrif. Nid mewn ymffrost ei dywedaf ond cefais i'r anrhydedd hwnnw chwarter canrif yn ôl. Ni chwenychai ef yr anrhydedd hwnnw hwyrach, ond cafodd llawer un a wnaeth lai o waith nag ef y flaenoriaeth arno. Credaf ar ambell i dro ein bod fel enwad yn gadael i bobl ein cymryd yn ganiataol fel pe baem heb weld na theimlo. Y mae'r adeg honno wedi dirwyn i ben gyda marwolaeth Jenkins. Ni ofalai ef. Ni siomai. Ni ddigiai. Yr oedd yn Rhyddfrydwr i'r craidd, a bûm bron ychwanegu, rhyddfrydwr o'r hen dype y sydd yn prysur

farw allan erbyn hyn. Yr oedd yn olyniaeth yr hen Undodiaid hefyd, onid wyf yn ei gam farnu, pan bleidiai heddwch a chydraddoldeb. Credaf y dylasem ymffrostio mai Castell Hywel, Iolo Morganwg a Thomos Glyn Cothi ac eraill oedd pleidwyr gwresocaf heddwch gynt. Y mae eisiau ei bleidio heddiw eto a'i bleidio mewn pryd, a chredaf y gallaf ddweud am Jenkins—"*yr olaf o'r hen weinidogion rhyddfrydol.*" Ceisiodd wasanaethu ei ardal mewn llawer dull a modd. Bu am dymor ar Gyngor Sir Aberteifi, ond ni chredaf iddo fod yn ddigon hir yno i ennill ei le fel Arthur Thomas ac eraill y gallwn enwi. Ni wn, ond rywsut chwerwodd etholiadau'r Cyngor Sir lawer ar ei fywyd oherwydd rywsut neu gilydd bu tan orfod sefyll yn erbyn cyd-Undodiaid droeon. Ni wn pam ond ni chymerwn fy mhwysau'n aur am dorri'r ddadl rhyngddynt. Gwnaeth ddiwrnod da o waith, ond gyda'r manion hwyrach yn hytrach na chyda pholisi. Yr oedd yn llywodraethwr Ysgol Sir Llandysul, ac ymhyfrydai'n addysg ei ardal, a chafodd llawer plentyn Jenkins yn ffrind a chyfarwyddwr. Nid oedd ei ffyddlonach i bwyllgorau, enwad a sir, a nodweddid ef a phendantrwydd. Unwaith y gwnai ei feddwl i fyny anodd oedd ei droi wedyn, a chofir yn hir am ei *stand bendant* dros Gapel bach Penrhiw. Gallwn ei edmygu ac anghytuno ag ef yr un pryd.

Ar draul clwyfo rhai o'i edmygwyr dywedaf yn onest nad oedd fawr o lenor. Yr oedd ysgrifennu yn faich iddo, a chredaf y gallaf gyfrif ei ysgrifau cofiadwy i'r YMOFYNNYDD ar fysedd un llaw. Ni ddwedaf na allai. Dweud yr wyf na wnaeth. Nid oedd ganddo ond nodiad neu ddau ar gerdyn o bregeth, a chredaf bod ei barabl llithrig wedi bod yn fagl iddo droeon. Gwyddai hanes yr ardal. Cerddodd lwybrau'r saint. Yr oedd wedi'i drwytho yn hanes yr enwad. Yr oedd yn llyfrbryf, a hwyrach bod ganddo lawer o hen bethau wedi'u cael yng Ngellifaharen ac yng nghartrefi pobl ei ofal, i daflu ffrwd o olau ar hanes y dyddiau gynt. Yr oedd yn fwy o ddarlithydd nag o lenor, ac yr oedd mynd ar ei ddarlith ar Domos Bartley. Yr oedd yn ofalus o'r YMOFYNNYDD, ac yr oedd ganddo set neu seti cyflawn ohono, ac yr oedd wedi gwneud mynegai lled gryno ohono. Dyna waith defnyddiol o werth i haneswyr yr enwad, a gobeithio y ceir rhywun i'w ddiwygio a'i drefnu a'i helaethu er mwyn gosod copi ohono yn llyfrgell y sir. Yn Llanbedr fe'i cofir o hyd fel gŵr llawn o hiwmor iach, a cheir hyd heddiw sôn am droeon direidus ac ysmala ys llawer dydd. Nid oedd y cyfan ond triciau hollol ddiddrwg a diniwed. Dywedai ffrind iddo wrthyf ychydig ddyddiau'n ôl ei bod yn cofio amdano ef a ffrind arall yn mynd ar hyd strydoedd Llanbedr gan droi o'r golwg yn awr ac yn y man, a gweiddi wedyn, "Sgadarn Ffreson" er mwyn twyllo'r trigolion a'u gweld yn dod a'u platiau i brynu sgadarn ac yn rhyfeddu na ddoi'r cert a'r sgadarn heibio.

Ni chofir am ei well ychwaith am ddweud stori, a chadwai gynulleidfa mewn hwyl, ac fe âi llawer un i gyngerdd ac eisteddfod er mwyn clywed Jinks yn dweud storïau. Ni chaniatâ gofod i mi adrodd hanes troeon direidus 'slawer dydd, ond fe wlitha llawer llygad o gofio'r amser gynt. Yn bendifaddau, serch hynny, fel cymwynaswr ardal ei cofir hwyaf. Credaf yr âi i bob angladd yn yr ardal : yr oedd ymhob cyngerdd ac arwerthiant ac ymhob cyrddau mawr. Y mae'n syndod fel y câi amser i fynd i bobman. O byddai rhywun yn sâl mewn ysbyty, pwy'n barotach i fynd i roi tro. Yr oedd modur Jenkins bron a bod yn *community car* yr ardal. Gwyddai hanes trigolion ei fro yn well na neb, a diddorol oedd gweld ambell hen wreigan yn disgwyl yn ei hiraeth a'i gofid am i Jenkins alw. O byddai angen cymwynas nid oedd dim amdani ond troi i Lwynmarles. Yr oedd pawb yn ei adnabod ac yntau'n adnabod pawb. Nid oedd gulni'n agos ato, a phregethai ym mhulpudau pob enwad. Cadwai'r gannwyll ynghynn ym Mhenrhiw, ac ae ar ei dro i Laindelyn yn y Tumble. Cymerai ddiddordeb ym mhethau'r ardal a chafodd Clwb y Ffermwyr Ifainc ei gefnogaeth mwyaf gwresog. Yr oedd yn dipyn o Biwritan, ac ar oedd Whist Drive yn ei lorio'n lân. Nid oedd gwmnïwr mwy difyr na ffrind cywirach, Rhyddfrydwr cadarnach na chymwynaswr gwell. Y mae ei gorff yn gorwedd yn naear mynwent y Llwyn, ond y mae ef ei hun yn ddiogel ynghalon ardalwyr Dyffryn Cletwr a'r cylch. Fe fu yn y cylch bregethwyr mwy dysgedig a rhyddfrydwyr mwy blaenllaw, ond y mae'n amheus a fu yma gymwynaswr mwy i werin y dyffryn heb wahaniaeth gradd na chredo. Y mae'i gorff mewn bedd, ond fe erys ei ddylanwad yn hir yn rhuddin deri gwŷr y fro.

O.

Y Pregethwr—"Pregetha y Gair."

Gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A.

'Rwyf unwaith eto yn y Llwyn a'r Bwlch. 'Rwyf yma ar bererindod parch. Y mae hi yn noson hafaidd braf a'r wlad yn ei gwisgoedd gorau. Eisoes, ar lechweddau meysydd Pantmoch ymdaena natur ei mantell hwyrol dros y fro, a thawelwch hirnos ha' eilw ddyffryn Cletwr i fendith y ne'. Yma yr wyf yn y tawelwch wrth fy hun yn myfyrio. Eithr i fy nghalon heno nid oes yma ond bedd.

'Rwyf yn awr yn syllu ar y bedd a'm het yn fy llaw. Oddiamgylch, ar y glaswellt, gwelaf ôl y dorf fu yma ddydd ei angladd,

ond heno dim ond yfi. Mor wâg, mor ddistaw—a llais y distawrwydd tyner yn siarad cyfrolau â fy nghalon. Bedd llawn, a phulpud gwag.

'Rwyf ar fy ffordd i fyny i'r Bwlch lle cefais fy magu yn y ffydd. Rhyw chwant arnaf fyned yno hefyd heno. Y fan acw, ar gopa'r lôn, gwelaf haul machlud y dydd yn fflachio ar ffenestri Llwynmarles,—tŷ gweinidog y Bwlch a'r Llwyn. Mae yntau heno yn wâg, a rhyw wacter hiraeth yn fy nghalon innau yn llawn o hen atgofion—hen atgofion ddwêd am ddylanwad fy ngweinidog ar fy mywyd ym more oes.

Ni wn pryd y clywais ef yn pregethu gyntaf. Rhaid mai baban bach oeddwn ym mreichiau Mam ar y pryd, ac yn *clywed* heb fedru *gwrando*. Y mae dros ddeugain mlynedd wedi eu rhifo (yn fy oes) oddi ar hynny, ac heno wele fi yn *gwrando* heb fedru *clywed*.

Ie ! a rhywun i wrando arno oedd fy ngweinidog. Nid hawdd gwrando ar bob pregethwr. Fedrai neb beidio gwrando arno ef. Gwelaf ef yn awr yn ei bwlpud yn y Bwlch. Gŵr taliaidd, tenau, a'i safiad a'i osgo yn naturiol urddasol, heb chwenychu "actio" mewn unrhyw fodd. Perthyn rhyw "fodd" traddodi i bob pregethwr,—a diolch na'n crewyd gan Dduw yn hollol yr un fath. Safai ef bob amser yn syth ac yn llonydd, heb orfod ymbwyso ar ddim ond ar ei draed ei hun. Ni charai ddefnyddio ystumiau corff oddigerth codi llaw yn awr ac eilwaith i bwysleiso pwynt y bregeth. Nid oedd raid i E. O. Jenkins wrth bwyslais ystum i yrru ei neges adre. Ni chodai byth mo'i lais mewn "Hwyl" ychwaith, er y medrai fod yn hwylus yn ei bregethu. Ni chlywais ef erioed yn "hollti'r nenfwd mewn bloeddiadau". Pregethai wrth siarad a'i gynulleidfa, a hynny mor syml a diddorol gan gadw y gwrandawr gwannaf rhag hepian cysgu. Meddai ar y ddawn i gadw gafael ar ei wrandawyr hyd at yr "Amen".

Nid rhyfedd hynny, oblegyd pregethwr oedd e' yn anad dim arall, y gwaith o bregethu oedd flaenaf yn ei galon—a gwrando pregethau yn dod yn ail. Dyma un gyfrifodd *wobrwyon dysg* yn golled er mwyn *pregethu*. Ac ef eto'n ifanc yn y Coleg ym Manceinion, byw ydoedd i fyned allan i'w faes, a'i bregeth ganddo,—byw i bregethu y gwirionedd—*ei* wirionedd, a phwynt a phwyslais ei bregeth bob tro : "Efengyl Iesu Grist yn ôl Evan Oliver Jenkins". Yn yr efengyl honno y cefais fy magu. Heno, uwchben ei fedd, nid oes arnaf gywilydd ohoni.

Triawd pwysig ym mhlith y pethau a'i nodweddai, fel pregethwr a gweinidog, oedd ei naturioldeb, ei wreiddioldeb dihafal a'i symylrwydd.

Pregethai bob amser yn naturiol, heb geisio actio na dynwared mewn unrhyw fodd. Diolch am naturioldeb mewn pwlpud. Gydag ambell i weinidog ifanc nid oes scrwydd pwy fydd yno yn pregethu o Sul i Sul ! Os yw pregethwr i lanw ei bwlpud rhaid

iddo, yn gyntaf peth, wrth naturioldeb. Y mae rhai pregethwyr, ys dywaid Wil Bryan, "yn ddim ond *Ventroloquist*—yn ceisio bod yn rhywun arall o hyd". Dyna berygl ambell i fyfyriwr ar ei daith bregethu—ceisio bod yn *hen* cyn dysgu cadw'n *ifanc*, ac wrth geisio bod yn *rhywun arall* yn methu bod yn *neb* yn y diwedd. Nid felly E. O. Jenkins ; *True to Nature* bob tro, ac ymhobman. Ni charai efelychu, er fod iddo y ddawn un adeg. Iddo ef "llais" yw y proffwyd ac nid "adlais".

Awdurdod ei bregeth trwy ei weinidogaeth faith, oedd ei naturioldeb ei hun. Hwyrach mai hynny a'i gwnaeth mor feistrolgar gyda'i waith, a'i alluogi i feddianu ei hun ar bob achlysur. Ni welais ef erioed yn teimlo'n *nervous*. Yn ei ddydd pregethodd o flaen dysgawdwyr, a mawrion ein ffydd, ond ni chofiaf iddo erioed deimlo'n swil. Un tro, pan ofynwyd i'r Cardinal Vaughan a'i nid oedd yn grynedig wrth bregethu gerbron pennau coronog Ewrop, atebai—"yr wyf fi yn arfer pregethu gerbron Brenin y brenhinoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi". Felly am Evan Oliver Jenkins.

A'i bregeth bob amser yn syml. Pregethau mwya'r byd, pregethau syml ydynt. Yn syml y pregethai Iesu, ac am E. O. Jenkins medrir dweud iddo fedru bod yn syml heb fod yn fach. Ni chlywais ef erioed yn ymgolli mewn ymdriniaeth ddiwinyddol. Gofalai bob amser fod yn ddealladwy. Bydd ambell un yn mynd i'r niwl, ac yn methu dod oddiyno. Dewisai ef "deall" o flaen "dysg", a dysgai trwy fod yn ddealladwy. Ai ar lwyfan Eisteddfod a chyfarfod cyhoeddus, ynteu ar blatform Rhyddfrydiaeth (a oedd yn ran o'i ffydd) ; ai fel darlithydd o gelf, ynteu yn ei bwlpud ar y Sul, neu ryw bwlpud arall,—yr un oedd ef yn y cwbl a wnelai—a'i fywyd i gyd yn bregeth ar y geiriau : rhag i mi "lygru oddi wrth y symylrwydd oedd yng Nghrist".

"Pregethwr yr enghreifftiau" ; dyna fel y byddai rhai yn ei adnabod. Dywedid weithiau ei fod am fanylu yn ormodol mewn enghreifftiau, ond medrai wneud hynny yn ddiddorol heb ddiflasu ei gynulleidfa ; yn wir, gwnâi hynny i'r gynulleidfa gofio'r bregeth i gyd. Hwyrach mai yn y cyfeiriad yna y gwelid ei gryfder fel pregethwr (ac efallai ei wendid). Rhaid ei fod wedi darllen yn helaeth yn ei ddydd, a thrwytho ei hun yn hanes Undodiaeth ac Undodiaid nes bod y cyfan bron ar flaen ei fysedd. "Bywgraffiadau oedd yn fywyd i'w bregethau bron i gyd. Roedd iddo gôf neilltuol. Ni chofiaf iddo erioed draddodi pregeth oddiar bapur ; tramgwydd iddo ef oedd pregeth ysgrifenedig. Ynddo ef oedd y bregeth i gyd, a medrai draddodi mor ddidrafferth nes gwneud y cyfan yn fyw. Os digwyddai y bregeth fod yn llai grymus na'i arferiad, eto yr oedd yn gyfeiriad o feddwl clir, ac o ddawn, a'r naill yn gweddu i'r llall, a'r ddau yn gweddu i E.O. Jenkins.

Perthynai iddo y ddawn i siarad. Y mae ambell bregethwr o lai yn cael anhawster i gyfansoddi, a chael rhywbeth i'w ddweud. Nid felly E. O. Jenkins. Ar adegau medrai geiriau fyrlymu ohono fel dŵr tardd y pistyll gloyw bach. Meddai ystwythder fel siaradwr, a'i wefusau mor denau fel y gallasai nyddu geiriau fel gwraig brofiadol yn nyddu hosan. Ni welais ef erioed yn chwilio am air mewn pregeth nag ar weddi—a phob gair yn ei le. Ni welais neb fedrai gynllunio pregeth mor ddestlus a didrafferth, ac esbonio testun mewn ffordd mor nerthol, syml ag ef. Cofiaf am rai o'i bregethau mawr. Daw un ohonynt i'm cof yn awr uwchben ei fedd,—Siars i "Weinidog cyntaf" y Capel Bach yn Aberystwyth. Dringodd yn uwch fel pregethwr y diwrnod hwnnw na mawrion ein henwad dros glaw'r ffin,—a'r cyfan yn "Saesneg," heb nodyn ar bapur Ie ! dyna'i ddawn—ac wrth ddywedyd wrthyf lawer tro am gadw fy ffydd, medraf innau ddywedyd heno yn y distawrwydd llethol sydd o gylch ei fedd—"Ti a'i cedwaist, nes iddi dy gadw di".

Heno y mae pwlpud y Llwyn a'r Bwlch yn wâg. Y mae ei bregeth olaf wedi ei thraddodi. Eithr ni orffennai ef yr un bregeth yn ei bwlpud. Cariai ei bregeth heibio'r "Amen" mewn gwasanaeth i'w ardal a'i sir, yn ogystal ag i'w enwad. Pregethai yn ei fyw ar hyd yr heol fawr, a'r heol uniawn. Y mae ambell i weinidog yn bregethwr da yn ei bwlpud, ond yn un sâl ar y "briffordd a'r caeau". Pwy all draethu am y pregethau a wnaeth hwn o ran cymwynasgarwch ei galon ar hyd y blynyddoedd ? Ni pherthyn i mi heno, wrth fyfyrio uwchben ei fedd, ganu ei glod. Y mae y clod yng nghalon y cymdogaethau.

Er iddo garu ei enwad, a chredu yn gryf yn yr efengyl Undodaidd, nid dyn enwad mohono. 'Roedd cylch ei weinidogaeth Undodol yn rhy gul i'w ysbryd. Gwelodd *alwad gwasanaeth* hwnt i gyffiniau ei eglwysi ei hun ; gwelodd "eisiau" tu allan i'w aelodau ei gynulleidfaoedd. Nid Undodwr "cul" oedd ef. Y mae culni mewn Undodiaeth yn gwneud dyn yn llai nag Undodwr, ond y mae ysbryd gwasanaeth yn y cariad Cristnogol yn gwneud dyn yn Gristion. Ni bu gweinidog yng Nghymru cyn lleied o ddyn enwad, ac er mai clod amheus yw hwn, credaf y fan yma heno yn ymyl ei fedd, bod eisiau mwy o ysbryd E. O. Jenkins ar enwadau Cymru heddiw.

"Iach iti, f'annwyl Weinidog !
Mae 'mywyd o'th blegid yn well ;
Blaenaist ychydig arnaf
Ar daith y gororau pell ;
Melys fydd y côf am danat
I mi o dan lawer cur,
A phêr yw i mi y gobaith
O'th gwrdd yn y gwynfyd pur."

Teyrnged i'r Gwleidyddwr.

Gan Rhys Hopkin Morris, K.C., A.S.

Rhifwyd dyddiau y Parchedig E. O. Jenkins, ond mae ef ei hun yn ddi-ddarfod. Aeth deng mlynedd ar hugain heibio er pan gyfarfum ag ef y waith gyntaf. Bu amser yn dyner ohono ac ni newidiodd treigl y blynyddoedd fawr ar ei ymddangosiad. Tal, tenau, gwydn o gorff a glân yr olwg arno ; ei wisg yn weddaidd, ei osgo yn syml, urddasol a dirodres ; gŵr gofalus ei farn ac hamddenol ei air, a gwên dawel chwareus—fwy yn ei lygaid nac ar ei wefus,—a'i wyneb bob amser yn siriol, felly yr ymddangosai E. O. Jenkins y tro cyntaf ei gwelais, felly hefyd yr ymddangosai y tro olaf ei gwelais ryw ddwy flynedd yn ôl. Mewn cyfarfod gwleidyddol y gwelais ef y tro cyntaf, mewn cyfarfod gwleidyddol y gwelais ef y tro olaf.

Ynghanolbarth Sir Aberteifi o Lanbedr-Pont-Steffan i Landysul erys Undodiaeth yn weddol gryf, a nôd amlycaf Undodiaeth yw'r pwys a rydd ar annibyniaeth barn ; myn brofi pob peth ym mrawdlys Rheswm, a dal yr hyn sydd dda. Yn 1792 yn eu deiseb i'r Senedd mynegodd yr Undodwyr eu "dyletswydd i chwilio ac esbonio yr Ysgrythurau drostynt eu hunain" ac fod ganddynt "hawl i ddatgan eu barn yn gyhoeddus". Iddynt hwy, fel i'r Arglwydd Bacon, plentyn Amser ac nid plentyn Awdurdod yw'r Gwir. Nid yw yn syndod felly mai Rhyddfrydwyr a Radicaliaid yw y mwyafrif mawr ohonynt yn wleidyddol. Ac felly y parhant yn Sir Aberteifi hyd y dydd hwn. Yr arweinwyr yno ddeng mlynedd a'r hugain yn ôl oedd pedwar o weinidogion—Mr. Jones, tad Mr. W. S. Jones, Cyn-Brifathro Coleg Caerfyrddin ; Mr. Evans yn Cribyn ; Mr. Arthur Thomas yn Llandysul a Mr. E. O. Jenkins yn Llwynrhydowen. Bryd hynny yr oedd y ddau gyntaf yn henafgwyr a'r ddau olaf yn wŷr canol oed yn anterth eu dyddiau. Yr oedd Mr. Jones, yr unig dro y gwelais ef, mewn gwth o oedran ac wedi ei gaethiwo i'w dŷ yn Llanbedr. Wrth i mi ymadael a'i dŷ, mynnodd ddod i ben y drws, a'i air olaf i mi oedd—"Mae gan bob dyn hawl i'w farn, ond, cofiwch 'machgen i—mae'n ddyletswydd arno i'w gwella hi hefyd." I'r un ysgol, er nad i'r un genhedlaeth y perthynai E. O. Jenkins. Erbyn hyn maent oll wedi mynd.

Hyd y cofiaf, y tro cyntaf i mi i'w weled, llywyddai gyfarfod yn hen gapel Llwynrhydowen—hen gapel Dafydd Dafis Castell Hywel—o blaid ymgeisiaeth y diweddar Mr. Llewelyn Williams yn etholiad achlysurol fythgofiadwy 1921. Er fod yr etholiad hwnnw yn llawn tân a chyffro, ymresymu yn dawel a chlir a wnai E. O. Jenkins. Ni wnai unrhyw ymgais i ysgubo ei wrandawyr ac

huawdledd, at eu rheswm yr annelau ei fwa. Clywais ef yn siarad laweroedd o weithiau wedi hynny, yr un oedd ei apêl bob tro. Ni chlywais ef unwaith yn gwneud un math o ymosodiad personol ar y neb a annghytunai ag ef. Gwyddai yn dda na pherchid hawliau'r dinesydd gan unrhyw un a wâdai hawliau dyn ; gweithredodd yn ôl ei wybodaeth.

Nodweddid ei feddwl â chryfder ac a symlrwydd. Mynnai ddeall ei bwnc yn glir, a meddai'r ddawn i'w wneud yn glir i'w wrandawyr. Defnyddiai gyffelybiaethau a chymariaethau o'r byd o'i gwmpas, a hynny yn aml yn llawn o hiwmor iach. Parchai ffeithiau, a chymerai drafferth i ddod o hyd iddynt. Nid wyf yn tybio fod i ddamcaniaethau cywrain unrhyw swyn iddo, yn sicr ymwrthodai â hwynt os y methent gyfrif am y ffeithiau. Y cwestiwn cyntaf a ofynnai am unrhyw gynllun oedd—"beth yw ei amcan" ? Os na chai atebiad clir i'w ofyniad ni phoenai ragor am y cynllun.

Er i bynciau gwleidyddol ymddangos ar yr olwg gyntaf yn gymhleth, yn gyffrous eu natur, ac er eu gor-doi yn aml â rhetoreg, maent er hynny yn syml yn y bôn i'r meddwl clir a chadarn ei argyhoeddiad, a meddwl felly oedd eiddo E. O. Jenkins. Ni chai ef unrhyw drafferth i dynnu'r llinell derfyn rhwng y gwir a'r gau. Am fod ei feddwl yn unplyg nid oedd ei ffordd yn ddau-ddyblyg. Dieithr hollol iddo oedd amhendantrwydd "hanner-adnodau y temtiwr". Ac am nad oedd ei weledigaeth yn amryfus nid oedd ei farn yn dramgwydd.

Gŵr cydwybodol oedd ef, ac nid oes y fath beth mewn bod a chydwybod ail-law. Ni chydnebydd cydwybod chwaith fod i unrhyw rym neu ddeddf amhersonnol awdurdod terfynol ar fywyd dyn. Ar y sylfeini hyn yr adeiladodd E. O. Jenkins ei rydd-frydiaeth. Nid cymeryd rhyddid a olygai ef wrth ryddid.

Ar y wyneb, bywyd llonydd a di-ddigwyddiad a fu ei fywyd. Cyflawnodd ddyletswyddau ei weinidogaeth yn ffyddlon, bu'n amlwg ym mywyd cyhoeddus ei sir, dilynau fudiadau'r dydd yn fanwl. Mae bywyd ambell i ddyn yn llawn digwyddiadau, a'r rhai hynny yn rhamantus a chyffrous ; gellir eu rhestri a'u holrhain, a'u gwybod yn llwyr heb ennill unrhyw adnabyddiaeth o'r dyn ei hun. Ond nid oedd angen i neb a freintiwyd â chymdeithas E. O. Jenkins i wybod dim am ddigwyddiadau ei fywyd er mwyn ei adnabod. Efe ei hun oedd prif ddigwyddiad ei fywyd. Gellid *synhwyro* ei bersonoliaeth ac arhosai'r argraff yn annileadwy. Er i'w fywyd fod yn dawel a chymharol ddigyffro, pwy a all fesur ei ddylanwad ar ei gylch ac ar fywyd ehangach ei wlad ?

Canrif yw hon a drallodir yn ei hysbryd am i'w breuddwyd fyned oddi wrthi ; canrif a eilw ar ei dewiniaid, ei hastronomyddion, ei hudolion meddylegol nid yn unig i ddehongli iddi ei breuddwyd, ond i fynegi iddi hefyd y breuddwyd a hangofiodd. Canrif a'i chais yn ddieithr, yn rhy ddieithr i'w dewiniaid ; cais, meddent, na all neb

ond y duwiau a'i ateb, ac nid yw eu trigfa hwy gyda chnawd. Oedi amser y drylliad a wna llysoedd y byd am na fedd eu dewiniad ddatguddiad y dirgelwch. Yn y ganrif hon y bu E. O. Jenkins mewn cyfarfodydd bychain ym mhentrefi diarffordd canol gwlad Sir Aberteifi, yn ymresymu'n dawel am ffordd o'r dyryswch. Iddo ef a'i gyffelyb datguddiwyd y dirgelwch. Gwyddai E. O. Jenkins i ba gyfeiriad i agor ei ffenestri. A phwy a fesur ei ddylanwad ?

Cwmniwr a Storiwr.

Gan y Parch. J. Carrara Davies, Belper.

Amynnau ar fedr talu fy ymweliad blynyddol â bro fy mebyd, siomedigaeth enbyd oedd clywed na fyddai fy hen gyfaill "Jinks" yno eleni i'm croesawu fel cynt.

Galwaf ef yn hen am i ni gael ein geni a'n magu yn awyrgylch Brondeifi, Llanbedr, eithr yr oedd ef yn bedair neu bum mlynedd yn hŷn na mi. Ac ymhlith y cofion cyntaf sydd gennyf amdano oedd ei dalent i adrodd penodau ac esbonio'r ysgrythur yn yr ysgol Sul, neu ddweud storïau difyr yn ddi-fyfyr mewn cyfarfodydd adloniadol. A'r farn gyffredin yn y dyddiau cynnar hynny oedd mai pregethwr fyddai Ifan os cawsai fyw, canys gwannaidd ddigon ydoedd o ran iechyd yn ei lencyndod ; ac fel y gŵyr pawb erbyn hyn gwireddwyd y broffwydoliaeth honno'n gyflawn.

Ond rhag i mi dresmasu fe gaiff rhywun arall ymhelaethu yn y cyfeiriad yna. Cofier mai fel cwmnïwr a storïwr y mae a fynom ni ag ef, a phwy a'i gwelodd erioed heb fod rhywun gydag ef ? Ewch yn eich meddwl am dro i Langranog, a beth yw'r dorf fechan honno a welwch ar y traeth, onid gweinidogion o wahanol enwadau wedi dod i gwrdd â Jenkins y Llwyn, a phob un ohonynt yn hongian ar ei wefusau. Eithr nid i drafod pynciau dyfnion diwinyddiaeth yn unig y daethant yno ond i gael yr adloniant a ddeuai o fod yn ei gwmni rhadlon. Yr oedd ganddo gôf arbennig am stori a dull a oedd yn eich denu i wrando, yn wir yr oedd popeth yn ddiddorol ar ei wefusau ef. O bosib na fyddech yn cytuno ag ef bob tro, ond ar eich gwaethaf ni allech beidio a chydnabod na fedrid rhoi'r safbwynt hwnnw mewn dull tecach a mwy deniadol.

Dau arwr mawr ganddo oedd 'Jacob Abergwaun' a Jubilee Young ac nid oedd dim gwell ganddo nac adrodd cymalau o'u pregethau a darnau o'r arabedd hwnnw y mae'r ddau yn enwog amdano. Ni synnwn i fawr yn wir na fuasai Jenkins yn cystadlu'n

agos â hwy am boblogrwydd yng Nghymru petai'n digwydd perthyn i enwad mwy lluosog na'r Undodiaid.

Fe fydd llwyfannau'r fro a thraeth Llangrannog yn wâg o'i golli ond pan ddown yn gwmni ar fin y traeth eleni, gwn y bydd atgofion melys iawn yno ac aml i stori o'i eiddo yn cael ei hail-adrodd.

Ein Gweinidog ar ei Aelwyd.

Gan E.D., Bwlch-y-Fadfa.

Carwn sôn am y Parch. E. O. Jenkins fel yr oedd ar ei aelwyd ac ar aelwydydd pawb o bob enwad yn ddi-wahân. Lle bynnag yr oedd, yr oedd yn gymeriad mawr ; yn ei bulpud, yn y cyrddau, ar bwyllgorau, ar yr heol, ymhob man ei ragoriaeth oedd ei fod yr un fath a'r un dyn i bawb. Ond ar ei aelwyd yn Llwynmarles yr oedd yn frenin ar ei orsedd. Cofiaf amdano yn ei gadair ger y tân a'i ymddiddan mor ddymunol a'r ergyd bob amser at y da a'r pur. Yr oedd yn apostol heddwch i'r carn, ac nid oedd arno ofn dweud hynny heb flewyn ar ei dafod. Yr oedd ganddo hawl i siarad dros heddwch oherwydd pan alwai arnom yn ei dro cyfaddefaf yn rhwydd y teimlwn rhyw naws ardderchog yn ei gwmni. Er ei fod yn feistr ar drin llawer testun, gŵr un testun oedd yn y diwedd. Dechreuai'r ymddiddan gyda'r tywydd a phethau dibwys, a stori efallai ond yr oedd rhaid mynd yn o fuan i sôn am y Llwyn a'r Bwlch ac fe roddodd ei fywyd i'r ddau le yma a'r hyn y safent drosto. Dyna'r testun mawr ac ni allai neb droi'r ymddiddan oddi wrth hyn yn ei gwmni.

Blin wyf heddiw wrth feddwl na welaf E.O.J. yn dyfod yn ei ffordd hapus a siriol fel cynt. Yr ydym wedi rhoddi'r ffarwel olaf i ŵr, sydd heb amheuaeth, wedi dylanwadu ar lawer ardal i gadw ar lwybrau gorau bywyd. Cefais y fraint o'i adnabod cyn ei ordeinio yn weinidog arnom yn agos i hanner canrif yn ôl. Heddiw diolchaf am ei fywyd gloyw a'i ddylanwad cryf arnaf—y mae fy nyled yn fawr iawn iddo. Ac os yw'r gwas da wedi syrthio, a gawn ni benderfynu, un ac oll, i chwifio'r faner yn uchel, fel y byddwn yn deilwng o'r arwr a gollwyd.

Yr Angladd.

Dydd Mercher, Gorffennaf 11 am ddau o'r gloch, hebryngwyd yr hyn oedd farwol o Evan Oliver Jenkins, a fu farw ar y 7fed Orffennaf yn 73 oed i fynwent Capel Coffa Llwynrhydowen. Yr oedd y capel yn llawn ymhell cyn pryd, a bu raid i fwy na thri chwarter y gynulleidfa aros y tuallan. Yr oedd yno wŷr a gwragedd a phlant wedi dod o bell ac agos, ei gynulleidfa ar wasgar, ei gyfeillion, ei gyd-weinidogion o bob enwad, ac ambell un heb enwad o gwbl yn dod i gofio am ryw dro da.

Yn y tŷ darllenwyd gan y Parch. Islan Jones, ac fe offrymwyd gweddi o ddiolch am was da gan y Parch. Islwyn Pritchard. Y Parch. J. Marles Thomas, un o'i blant yn y ffydd, oedd a gofal y gwasanaeth yn y Capel, ac ef a draddododd y bregeth angladdol. Yma darllenwyd gan y Parch. S. E. Bowen, offrymwyd gweddi gan y Prifathro J. D. Jones, a siaradwyd ymhellach gan y Parchn. Lewis Williams a Simon Jones. Cyhoeddwyd yr emynau gan y Parch. Dewi Jones (Ficer Silian), Mr. Elwyn Davies (Myfyriwr) a'r Parch. R. Morris (B), Penybont. Wrth ganu'r emyn "Fy mugail da 'rwy'n dod", nid oedd nemor lygad heb ddeigryn gan ddwysed y teimladau. Miss Myra Parry, Mrs. Evans, Gwarcwm a Mrs. Evans, Pantglas a wasanaethodd wrth yr organ, ac ar y diwedd canwyd 'Largo' Handel ar yr organ gan Miss E. Thomas, Green Grove. Yn y fynwent tuallan darllenwyd y gwynfydau ac emyn gan D. Jacob Davies ac fe offrymwyd y weddi ffarwel gan y Parch. T. O. Williams. Wrth ymadael cofiodd pawb am eiriau'r Parch. J. Marles Thomas yn ei anerchiad, "Y mae bwlch yn y *llwyn* a'r llwyn wedi ei dorri i lawr".

Tangnefedd.

Priodas.

Dydd Sadwrn, 7fed o Orffennaf yng Ngalltyplaca, priodwyd Mr. ELIAS DAVIES, Pleasant View, Alltyplaca a Miss MARGARET DORIS DAVIES, Cefnbryn, Cwmanne, Llanbedr. Gwasanaethwyd gan y Parch. S. E. Bowen.

HAF.

Mae'r gwenyn wrthi'n brysur
A miwsig yn eu grŵn,
Yn casglu'r dreth wrth alw
Yn stryd y bysedd cŵn.

Mae'r goedwig wedi gwisgo
Ei dillad newydd sbon,
A thonnau'r môr yn lledu
Ymhell dros ŷd y fron.

Daeth blodau gwyllt, daeth lili,
Daeth rhosyn teg ei sawr,
A gwn fod moethau eraill
O dan y Cownter Mawr.

Cei Newydd. JACK H. DAVIES.

COREA FACH.

(*O'r Winllan*).

Chwaraeai'r plant yn stryd y cefn,
Yn llawn o hwyl a sêl,
Trafodai un y bat mewn trefn,
A thaflai'r llall y bêl.

Ar bwys y wiced safai un,
Tra gwyliai'r lleill o draw ;
Pob bachgen yn ei le ei hun
I ddal y bêl â'i law.

Mae treiglo'r bêl a'r chwarae'n chwim,
Ond dyma dwrf a ffrae ;
Beth a ddigwyddodd, wn i ddim,
Mae'n derfysg ar y ' cae.'

Cyhuddai un, a gwadai'r llall,
A chodai pawb ei gloch ;
'D oedd neb yn esgus bod yn gall
Yn sŵn y gweiddi croch.

Fe aeth yn ymladd gwyllt yn awr,
A darfu'r chwarae iach ;
Ni'm synnir bod Corea fawr
'R ôl gweld Corea fach.

NANTLAIS.

Newyddion yr Enwad.

LLUNDAIN.—Diolch i'r canlynol am gymryd ein gwasanaethau yn ddiweddar : y Parch. D. Jacob Davies, B.A. ; y Parch. R. Islwyn Pritchard, B.A. a'r Parch. T. L. Jones. Y mae tri baban wedi cael eu bedyddio mewn gwasanaethau naill yn yr eglwys neu yn eu cartrefle yn yr wythnosau diwethaf yma—gobeithio y tŷf y plant i fod yn aelodau ffyddlon gennym maes o law.—Cafwyd *trip* hapus i Clacton yn gynnar ym mis Gorffennaf ac yr ydym yn ddyledus i Mr. Jenkin Jones (Cribyn) am wneud y trefniadau.—Blin oedd clywed i Miss Mali Evans, a hithau ar ymweliad i Lundain, orfod mynd o dan driniaeth llaw-feddyg yn Ysbyty Bolingbroke, Clapham, ond pleser yw clywed ei bod yn gwella'n gyflym ac yn awr allan o'r Ysbyty.—Hiraethwn ar ôl yr annwyl E. O. Jenkins. Anodd sylweddoli na chlywir ei lais byth mwy yn pregethu, yn rhoi siars i'r gweinidog neu i'r eglwys, yn darlithio neu yn dweud stori yn ei ddull swynol a diddorol. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd ni fedrodd ddod i Lundain eleni, ond gwelwyd ef fel arfer yng Ngholeg Caerfyrddin ar y 27ain o Fehefin. Y dydd hwnnw yr oedd yn wael iawn ei iechyd ond o ffyddlondeb i'r myfyrwyr a'r Coleg mynnodd ddod yno. Daeth a myfyriwr newydd ganddo—gofalu am ddyfodol yr achos ymhlith ei waith olaf. Ef oedd un o gymeriadau mwyaf ein henwad y ganrif hon, un a gafodd ddylanwad mawr yng Nghymru ac un hoff gennym i gyd. Cydymdeimlwn yn fawr ag eglwysi Llwynrhydowen a Bwlchyfadfa, a gwelir deigryn ar lawer grudd yn Llundain.

GELLIONNEN A'R GRAIG.—Ar y Llungwyn cynhaliwyd gŵyl de flynyddol yr ysgol Sul ar y mynydd. Ymgasglodd tyrfa fawr ar ddiwrnod braf i fwynhau'r wledd. Digonwyd tua phedwar cant.—Mai 19 oedd dydd gwibdaith Urdd y Benywod. Bwriadwyd unwaith i ymweld a Sain Ffagan eleni, ond gan nad oedd Penrhiw wedi ymsefydlu yno newidwyd y gyrchfan a chafwyd diwrnod pleserus ym Mhenarth.—Mai 23 cynhaliodd y cwmniau dramodol sosial i ddathlu diwedd tymor llwyddiannus iawn.—Mehefin 8 rhoddwyd perfformiad o'r ddwy ddrama fer i'r pensiynwyr yn Neuadd "Hen Oed," Pontardawe. Gwerthfawrogwyd yr ymdrech yn fawr iawn gan yr hynafgwyr.—Mehefin 10 cynhaliwyd gwasanaeth o fawl yng Nghapel Gellionnen, gwasanaeth sydd bellach yn ŵyl flynyddol yn hanes yr Hen Gapel. Llywyddwyd eleni gan Mr. Haydn Morgan a'r cyfaill I. E. Hopkin yn arwain.—Mehefin 24—Cynhaliwyd gwasanaeth blynyddol yr ieuenctid a hwnnw eleni wedi ei gyplysu a gwasanaeth y blodau. Y gweinidog gwâdd oedd y Parch. Dudley Richards, Bradford. Cymerwyd y rhannau defosiynol gan y bobl ifainc y bore a'r hwyr a'r plant a arweiniodd yn y prynhawn, a phob un ohonynt yn dod a'i dusw o flodau prydferth. Ar ôl y gwasanaeth hwyrol, cynhaliodd yr ieuenctid "Lawr Dyrnu"—*Forum*, ac ar y fainc yr oedd y Parch. Dudley Richards, B.A., B.D. ; Y Parch. Aubrey Martin, B.A. ; Dr. R. O. Jones, M.Sc. a Mr. Martin John. Diddorol iawn oedd gwrando ar

ddadl y gwyddonydd a'r diwinydd.—Mehefin 30 : Gwibdaith flynyddol yr ysgol Sul i Borthcawl. Cafwyd diwrnod poeth iawn a'r plant yn ymhyfrydu yn y dyfroedd am oriau lawer. J.M.J.

CWRDD COFFA I'R PARCH. E. O. JENKINS.—Cynhelir Cwrdd Coffa i'r Parch. E. O. Jenkins ddydd Sul, Awst y 5ed yn Llwynrhydowen am ddau o'r gloch, a disgwylir y Parch. Lewis Williams i bregethu. Rhoir gwahoddiad cynnes i bawb.

Y PULPUD GWAG YN Y LLWYN A'R BWLCH.—Dymuna'r ddwy eglwys yma lanw'r pulpud cyn gynted ag sydd modd, a gwahoddir y neb a fo ganddo ddiddordeb ynddynt i ymohebu a'r naill neu'r llall o'r Ysgrifenyddion. Byddys yn ddiolchgar iawn am bob cymorth i gynnal y gwasanaethau yn y cyfamser.

PWY A FYN FEIBL ?—Y mae un neu ddau o Feiblau mawr, cymwys ar gyfer pulpud wedi ei rhoi yng ngofal y Golygydd, ac os oes rhyw gapel (neu berson o ran hynny) a fyn eu cael, ymofynner ag ef. Nid yw'r person sy'n eu rhoddi am ddatgelu'r enw, ond mawr ein dyled iddi.

YR HAT AR GOLL !—Pwy yw'r dyn pwysig a adawodd ei hat ar ôl yn Nhrebanos ? Aeth yr hat ar ei thaith o'r fan hynny i gwrdd Urdd y Benywod ym Mhenard ac o Benard aeth am dro mewn bus i gyfeiriad Nelson a Phontypridd. Bellach daeth yn ôl i'w chartref a synnwn i ddim na cheir ei gweld yn y Cyrddau Blynyddol. Wyddoch chwi ddim ble gwelwch chwi'r hat yma nesaf !

GWASANAETHAU UNDEBOL.—Sul, Awst 19 am 2 o'r gloch yng Nghapel-y-Groes, am 6.30 yn Llwynrhydowen. Gwasanaethir gan y Llywydd, y Parch. G. Randall Jones, M.A., B.D. Gofynnir am ymdrech i lanw'r ddau gapel. Gwneir casgliadau i gwrdd â'r treuliau.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.